Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 2: 4-25

ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 2: 18

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.

Stori 3 Y dyn cyntaf a'r wraig gyntaf

Roedd Adda'n byw mewn gardd brydferth iawn o'r enw Gardd Eden. Yma, rhoddodd Duw bopeth yr oedd arno'i angen iddo - bwyd a dŵr. Dywedodd Duw hefyd wrth Adda am ofalu am yr ardd.

Dangosodd Duw'r holl greaduriaid yr oedd wedi'u gwneud i Adda. Rhoddodd Adda enw i bob creadur byw.

C **Beth oedd enw'r man lle roedd Adda'n byw?**

G __ __ ____ E __ __ __ .

C **I beth roddodd Adda enwau?**

A __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ ac A __ __ __

4

Ydych chi erioed wedi cael eich gadael ar eich pen eich hun? Yn aml, dydi hi ddim yn braf bod ar eich pen eich hunan. Doedd Duw ddim am i Adda fod ar ei ben ei hun. Roedd gan Adda lawer o anifeiliaid, adar, coed a phlanhigion hardd o'i gwmpas, ond roedd Duw yn gwybod bod angen rhywun arbennig arno i fyw gydag ef yn yr ardd.
Fe wnaeth Duw i Adda gysgu'n drwm, a phan oedd Adda'n cysgu fe wnaeth Duw y wraig gyntaf o asen Adda.

C **Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau isod i gael gwybod beth oedd enw'r wraig.**

_____ _____ _____

Roedd gan Adda gwmni nawr. Roedd ganddo rywun i fod yn wraig iddo ac yn gwmni wrth iddo ofalu am yr ardd a gafodd gan Dduw.

3

C **Rhowch gylch o gwmpas y gair cywir yn y frawddeg hon.**

3

Roedd Efa yn **ELYN** **WRAIG** **FORWYN** i Adda

Roedd llawer o goed yn yr ardd. Yng nghanol yr ardd roedd dwy goeden. "Pren y Bywyd" oedd enw un a "Pren Gwybodaeth Da a Drwg" oedd y llall. Dywedodd Duw wrth Adda ac Efa eu bod yn cael bwyta ffrwyth pob coeden ond "Pren Gwybodaeth Da a Drwg".

C **Rhowch gylch o gwmpas y goeden nad oedd Adda ac Efa'n cael bwyta ei ffrwyth.**

Coeden Oren | Pren Gwybodaeth Da a Drwg | Coeden Ceirios | Coeden Cnau Coco

4

Felly, roedd Duw wedi gwneud byd hardd. Roedd y dyn cyntaf a'r wraig gyntaf, Adda ac Efa, yn gofalu amdano. Fel y gwelwn ni yn y stori nesaf, aeth rhywbeth o'i le ond mae llawer o bethau hardd yn y byd o hyd. Mae Duw yn disgwyl i ni wneud ein gorau i ofalu am bopeth y mae Ef wedi'i wneud.

C **Lliwiwch yr adnod isod a dysgwch hi.**

"Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder."

Salm 24: 1

6

Ydych chi'n diolch i Dduw am bopeth y mae wedi'i wneud? Gallwch ddiolch iddo trwy weddïo dros y coed, yr anifeiliaid a'r adar, a dros eich ffrindiau a'ch teulu.